The Electoral Commission

# Safonau perfformiad newydd ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol

## Mehefin 2021

**Cyflwynwyd i Senedd Cymru yn unol ag adran 9AA o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000**

# Cynnwys

1 Overview ........................................................................................................ 1

2 Performance standards for EROs ............................................................ 4

# 1 Trosolwg

## Cefndir

Rhoddodd Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006 bwerau i'r Comisiwn Etholiadol bennu a monitro safonau perfformiad ar gyfer gwasanaethau etholiadol. O dan y darpariaethau hyn, gall y Comisiwn:

- bennu a chyhoeddi safonau perfformiad ar gyfer swyddogion etholiadol perthnasol ym Mhrydain Fawr (Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif)
- cyfarwyddo swyddogion perthnasol i gyflwyno adroddiadau i'r Comisiwn o ran eu perfformiad yn erbyn y safonau cyhoeddedig
- cyhoeddi ei asesiad o lefel perfformiad swyddogion perthnasol yn erbyn y safonau cyhoeddedig

O dan newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, cyn pennu safonau sy'n gysylltiedig ag etholiadau yng Nghymru, mae'n ofynnol i'r Comisiwn anfon copi at Weinidogion Cymru, y mae'n rhaid iddyn nhw eu cyflwyno gerbron y Senedd.

Ynghyd â'r canllawiau a'r adnoddau a ddarparwyd gan y Comisiwn, mae'r safonau perfformiad yn rhan o becyn sy'n ceisio cefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gynllunio a darparu gwasanaethau cofrestru etholiadol effeithiol ledled Prydain Fawr.

Cyflwynodd y Comisiwn safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2008 gyda'r prif nod o sicrhau ymarfer mwy cyson ledled Prydain Fawr. Cyflwynwyd fframwaith diwygiedig yn 2013 i gefnogi'r broses o drosglwyddo i system gofrestru etholiadol unigol ac yna eto yn 2016, ar ôl cyflwyno'r system gofrestru etholiadol unigol.

Rhoddodd y diwygiadau i'r canfasiad blynyddol a gyflwynwyd yn 2020 gyfle priodol ac amserol i ddatblygu fframwaith safonau perfformiad newydd. Fodd bynnag, mae'r fframwaith newydd yn ddigon hyblyg i allu addasu i ragor o newidiadau wrth i'r broses gofrestru etholiadol ledled Prydain Fawr barhau i esblygu.

## Y safonau perfformiad

Mae'r safonau'n canolbwyntio ar y canlyniadau y dylid eu cyflawni, yn hytrach na'r prosesau a ddilynwyd, gyda'r nod o helpu Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u timau i ddeall effaith eu gweithgareddau cofrestru etholiadol. Dylai hyn helpu Swyddogion Cofrestru Etholiadol i wneud penderfyniadau hyddysg am ba weithgareddau yr ymgymerir â nhw, y ffordd y mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal a'r ffordd y gellir defnyddio adnoddau cyfyngedig yn effeithlon ac yn effeithiol.

## Beth mae'r safonau yn eu cynnwys?

**Canlyniad**

Mae hyn yn nodi'r nod cyffredinol y dylai'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol fod yn ceisio ei gyflawni. Mae'r safonau perfformiad yn cynnwys tri nod cyffredinol y dylai'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol fod yn ceisio eu cyflawni:

- Sicrhau bod cofrestrau etholiadol mor gywir a chyflawn â phosibl, gan sicrhau bod pawb sy'n gymwys ac sydd am bleidleisio yn gallu gwneud hynny
- Sicrhau bod pleidleisio absennol yn hygyrch, gan sicrhau bod pawb sy'n gymwys ac sydd am bleidleisio yn cael eu cynnwys ar y rhestr pleidleisio absennol berthnasol
- Sicrhau bod gan randdeiliaid ac etholwyr hyder bod y cofrestrau etholiadol yn cael eu rheoli'n ddiogel.

**Pa fewnbwn sydd ei angen?**

Mae hyn yn nodi'r adnoddau y bydd angen eu darparu ar gyfer y gwasanaeth fel y gellir cyflawni'r gweithgareddau angenrheidiol.

**Pa weithgareddau yr ymgymerir â nhw?**

Nid yw hyn yn rhoi rhestr gynhwysfawr o weithgareddau, ond yn hytrach, mae'n crynhoi'r prif weithgareddau y mae'n debygol y bydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ymgymryd â nhw er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad ym mhob achos. Mae ein canllawiau a'n hadnoddau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol wedi'u cynllunio i'w helpu i benderfynu ar y gweithgareddau penodol y bydd angen eu cynnal o dan eu hamgylchiadau penodol.

**Pa wybodaeth sydd ei hangen i ddeall effaith ein gweithgareddau?**

Mae hyn yn tynnu sylw at y data a'r wybodaeth ansoddol a fydd yn helpu i ddangos effaith y gweithgareddau. Dylai hyn fod yn sail i'r ffordd y gall y Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'r Comisiwn benderfynu ar lwyddiant eu gwaith. Unwaith eto, nid yw hyn yn rhestr gynhwysfawr a gallai data neu wybodaeth ychwanegol y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn teimlo sy'n berthnasol i'w berfformiad ategu'r wybodaeth a restrir.

**Pa wahaniaeth sy'n cael ei wneud?**

Mae hyn yn crynhoi'r effeithiau cyfun y dylai'r gweithgareddau eu cael, ac a fyddai, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn cyfrannu at y gwaith o sicrhau'r canlyniad cyffredinol.

**Sut gallwn benderfynu ar lwyddiant ein gwaith?**

Mae hyn yn pennu'r mesurau a fydd yn helpu i ddangos pa wahaniaeth y mae'r gwaith yn ei wneud. Mewn rhai achosion, ni fydd y gwahaniaeth yn syml i'w feintioli na'i fesur fel arall, ac felly efallai y bydd yn rhaid dibynnu ar gyfuniad o sawl mesur er mwyn dangos yr hyn y mae'r gwaith yn ei gyflawni.

Mae'r tudalennau canlynol yn nodi'r safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

# 2 Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol

**Canlyniad: Sicrhau bod cofrestrau etholiadol mor gywir a chyflawn â phosibl, gan sicrhau bod pawb sy'n gymwys ac sydd am bleidleisio yn gallu gwneud hynny.**

| Pa fewnbwn sydd ei angen? | Pa weithgareddau yr ymgymerir â nhw? | | Pa wybodaeth sydd ei hangen i ddeall effaith ein gweithgareddau? | Pa wahaniaeth sy'n cael ei wneud? | Sut gallwn benderfynu ar lwyddiant ein gwaith? |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dealltwriaeth Swyddogion Cofrestru Etholiadol a chyflawni'r rôl a'r cyfrifoldebau – rheoli a goruchwylio'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth cofrestru etholiadol, gan gynnwys swyddogaethau statudol y Swyddog Cofrestru Etholiadol, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid** | Nodi'r rhai nad ydynt wedi cofrestru, gan gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd | Defnyddio'r data sydd ar gael a ffynonellau gwybodaeth, nodi'r rhai nad ydynt wedi cofrestru, gan gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd | • Dadansoddi cwmpas a defnyddioldeb y data a'r wybodaeth<br>• Dadansoddi'r ardal gofrestru ar lefel ward<br>• Nodi ardaloedd â blaenoriaeth er mwyn targedu gweithgarwch cofrestru | Deall demograffeg yr ardal gofrestru ac anghenion grwpiau o etholwyr yn yr ardal honno, gan alluogi gwasanaethau i gael eu targedu a'u cynllunio i ddiwallu anghenion trigolion | • Nodi perfformiad yn erbyn y DPAau/amcanion yn eich cynlluniau cofrestru |
| | | Datblygu a chynnal strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd, gan sicrhau bod gweithgareddau cynlluniedig wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion grwpiau gwahanol o etholwyr | • Gwerthuso sianeli a dulliau cyfathrebu, gan gynnwys dadansoddiad cost a budd o weithgarwch blaenorol, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth ymgysylltu a gweithgareddau | | |
| | Ymgymryd â gweithgarwch cofrestru drwy'r flwyddyn | Cynnal y gronfa ddata eiddo | • Nifer yr eiddo â rhif cyfeirnod eiddo unigryw (UPRN)/fel canran o'r eiddo<br>• Dadansoddi unrhyw faterion y rhoddir gwybod amdanynt o ran dyrannu eiddo i ddosbarthiadau pleidleisio er mwyn adlewyrchu ffiniau etholiadol perthnasol | | • Gwerthuso gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yr ymgymerwyd â nhw, gan gynnwys newidiadau a wnaed i'r gofrestr o ganlyniad i'r gweithgarwch |
| **Cynllunio – cynnal cynllun ar gyfer cofrestru drwy gydol y flwyddyn, gan sicrhau y caiff ei adolygu'n gyson a'i werthuso, gan fwydo'r gwersi a ddysgwyd yn ôl, a chofrestr risgiau a phroblemau, gan nodi unrhyw risgiau i weithrediad effeithiol eich cynllun cofrestru a chamau gweithredu lliniarol cyfatebol** | | Cysylltu ag etholwyr cymwys posibl, gan gynnwys cynnal gwaith i dargedu grwpiau anodd eu cyrraedd<br><br>Sicrhau bod y rhai nad ydynt yn gymwys i gael eu cofrestru mwyach yn cael eu nodi a'u tynnu oddi ar y gofrestr | • Cywirdeb a defnyddioldeb y ffynonellau data a ddefnyddir<br>• Dadansoddi cyfraddau ymateb yn ôl sianel er mwyn deall effaith gwahanol ddulliau gweithredu<br>• Nifer y Gwahoddiadau i Gofrestru a anfonwyd (yn ôl sianel)<br>• Nifer y Gwahoddiadau i Gofrestru y dilynwyd eu trywydd<br>• Nifer y gwahoddiadau i gofrestru nad ymatebwyd iddynt ar ôl y camau atgoffa ac ymweliad personol<br>• Nifer yr etholwyr nad yw eu manylion adnabod wedi'u dilysu ac nad ydynt wedi darparu tystiolaeth ddogfennol eto<br>• Nifer y ceisiadau cofrestru a gafwyd<br>• Nifer yr ychwanegiadau at y gofrestr | Rhwystrau i gofrestru wedi'u lleihau, gan alluogi pob unigolyn cymwys, yn cynnwys y rhai o grwpiau etholwyr gwahanol, i gofrestru<br><br>Nodi etholwyr newydd posibl a sicrhau eu bod yn cael pob cyfle i gofrestru i bleidleisio | • Newidiadau yn y lefelau cofrestru yn yr ardal gofrestru yn gyffredinol ac o fewn grwpiau a nodwyd, lle na cheir lefelau cofrestru digonol<br><br>• Asesiad o lefelau'r ychwanegiadau a dileadau, yn ystod y canfasiad a thrwy gydol y flwyddyn |
| **Adnoddau – nodi a dyrannu cyllideb a staff ar gyfer gweithgareddau cofrestru etholiadol** | | Datblygu a gweithredu prosesau i nodi a mynd i'r afael â materion uniondeb posibl | • Nifer yr adolygiadau cofrestru a'r nifer y cafodd eu henwau eu dileu o ganlyniad i hynny<br>• Nifer y dileadau nad oeddent o ganlyniad i adolygiad, yn ôl math | Nodi newidiadau yn statws cofrestru unigolion a'u cymhwyso at y gofrestr mewn modd amserol | • Dadansoddiad o flwyddyn i flwyddyn o'r ychwanegiadau a'r dileadau |
| **Hyfforddiant – nodi a darparu hyfforddiant i ddiwallu anghenion staff dros dro a staff parhaol** | | Rheoli etholwyr categori arbennig | • Nifer y ceisiadau cofrestru a ailgyfeiriwyd at yr heddlu<br>• Nifer y ceisiadau adnewyddu a anfonwyd<br>• Nifer y ceisiadau etholwyr categori arbennig (ceisiadau newydd a cheisiadau adnewyddu) a broseswyd, gan grwpiau etholwyr gwahanol (tramor, gwasanaethau ac ati)<br>• Nifer yr etholwyr categori arbennig a adnewyddwyd | | • Asesu nifer yr etholwyr cymwys a oedd wedi ceisio pleidleisio ar y diwrnod pleidleisio, ond nad oeddent wedi gallu gwneud hynny am nad oeddent wedi cofrestru i bleidleisio |
| | Gweinyddu'r canfasiad | Defnyddio data a gwybodaeth, nodi'r dull mwyaf priodol i ganfasio eiddo yn eich ardal | • Cywirdeb a defnyddioldeb y ffynonellau data lleol a ddefnyddir<br>• Canlyniadau paru data (cenedlaethol a lleol)<br>• Nifer yr aelwydydd a fwriadwyd ar gyfer pob llwybr | Caiff etholiadau eu cefnogi'n effeithiol gan y gofrestr | |

| Canlyniad: Sicrhau bod cofrestrau etholiadol mor gywir a chyflawn â phosibl, gan sicrhau bod pawb sy'n gymwys ac sydd am bleidleisio yn gallu gwneud hynny. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwneud trefniadau i ddarparu'r gweithgareddau canfasio a gynlluniwyd | • Dadansoddi'r sianeli cyfathrebu sydd ar gael (e-gyfathrebu, ffôn, post ac ati), er mwyn llywio'r cyswllt ag eiddo unigol<br>• Nifer yr aelwydydd a ganfasiwyd, yn ôl llwybr a sianel<br>• Nifer yr ohebiaeth a anfonwyd, yn ôl llwybr a sianel<br>• Nifer yr ymatebion, yn ôl llwybr a sianel<br>• Asesu llwyddiant y sianeli cyfathrebu canfasio a ddefnyddiwyd | | |
| | | Ymgymryd â'r gweithgareddau canfasio a gynlluniwyd | • Nifer y canfaswyr a recriwtiwyd ac a hyfforddwyd<br>• Gwerthusiad o berfformiad canfaswr | | |

| Canlyniad: Sicrhau bod pleidleisio absennol yn hygyrch, gan sicrhau bod pawb sy'n gymwys ac sydd am bleidleisio yn cael eu cynnwys ar y rhestr pleidleisio absennol berthnasol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pa fewnbwn sydd ei angen?** | **Pa weithgareddau yr ymgymerir â nhw?** | | **Pa wybodaeth sydd ei hangen i ddeall effaith ein gweithgareddau?** | **Pa wahaniaeth sy'n cael ei wneud?** | **Sut gallwn benderfynu ar lwyddiant ein gwaith?** |
| **Dealltwriaeth Swyddogion Cofrestru Etholiadol a chyflawni'r rôl a'r cyfrifoldebau – rheoli a goruchwylio'r gwaith o ddarparu'r swyddogaeth pleidleisio absennol, gan gynnwys cyfrifoldebau statudol Swyddog Cofrestru Etholiadol, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid**<br><br>**Cynllunio – cynnal cynllun drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli'r broses pleidleisio absennol, a chofrestr risgiau a phroblemau, gan nodi unrhyw risgiau i'r broses o gyflawni eich cynllun cofrestru a chamau lliniaru cyfatebol yn effeithiol.**<br><br>**Adnoddau – nodi a dyrannu cyllideb ar gyfer staff ac ar gyfer gweithgareddau pleidleisio**<br><br>**Hyfforddiant – nodi a darparu hyfforddiant i ddiwallu anghenion staff dros dro a staff parhaol** | Cefnogi etholwyr i ymgysylltu â'r broses pleidleisio absennol | Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu er mwyn sicrhau bod etholwyr yn ymwybodol o'r opsiynau pleidleisio absennol sydd ar gael iddynt<br><br>Sicrhau y gall yr holl etholwyr ddefnyddio'r broses pleidleisio absennol | • Gwerthuso gwybodaeth sydd ar gael i etholwyr eraill am y broses pleidleisio absennol er mwyn eu helpu i ddeall yr opsiynau sydd ar gael iddynt<br>• Nifer y ceisiadau pleidleisio absennol gan grwpiau gwahanol o etholwyr (tramor, gwasanaeth ac ati), yn ôl math (pleidlais bost neu drwy ddirprwy)<br>• Nifer a math o gwynion a gafwyd am y gallu i ddefnyddio'r broses pleidleisio absennol gan grwpiau etholwyr gwahanol (arferol, tramor, gwasanaeth ac ati.) | Gall etholwyr wneud penderfyniad hyddysg o ran pa ddull pleidleisio sydd orau iddynt<br><br>Rhwystrau i bleidleisio absennol wedi'u lleihau, gan alluogi pob unigolyn cymwys, yn cynnwys y rhai o grwpiau etholwyr gwahanol, i wneud cais<br><br>Nodi newidiadau i drefniadau pleidleisio a'u cymhwyso at y rhestr mewn modd amserol<br><br>Cynnal uniondeb cofnodion pleidleisio absennol | • Nodi perfformiad yn erbyn y DPAau/amcanion yn eich cynlluniau<br>• Dadansoddi cwynion ac adborth a gafwyd am y gallu i ddefnyddio'r broses pleidleisio absennol<br>• Asesu nifer a mathau o wallau yn y rhestrau pleidleiswyr absennol |
| | Gweinyddu prosesau pleidleisio absennol | Prosesu ceisiadau newydd<br><br>Prosesu newidiadau y gofynnwyd amdanynt i'r dewisiadau pleidleisio absennol<br><br>Cynnal cofnodion a rhestrau pleidleisio absennol<br><br>Datblygu a gweithredu prosesau i nodi a mynd i'r afael â materion uniondeb posibl | • Nifer y ceisiadau pleidlais absennol a gafwyd yn ôl math (pleidlais bost neu drwy ddirprwy)<br>• Nifer y ceisiadau pleidlais absennol a wrthodwyd<br>• Nifer y cofrestriadau pleidlais absennol a gadarnhawyd<br>• Nifer y newidiadau i'r trefniadau pleidleisio a broseswyd<br>• Nifer yr hysbysiadau adnewyddu pleidlais absennol a anfonwyd ac y dilynwyd eu trywydd, a nifer yr ymatebion a broseswyd<br>• Nifer y ceisiadau pleidlais bost i bleidleisiau post cael eu hailgyfeirio i un cyfeiriad<br>• Nifer y ceisiadau post o un cyfeiriad<br>• Nifer y ceisiadau pleidlais drwy ddirprwy o un cyfeiriad<br>• Nifer y ceisiadau am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng yn ôl math<br>• Nifer y ceisiadau a ailgyfeiriwyd at yr heddlu i ymchwilio iddynt | | |

| Canlyniad: Sicrhau bod gan randdeiliaid ac etholwyr hyder bod y cofrestrau etholiadol yn cael eu rheoli'n ddiogel | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pa fewnbwn sydd ei angen?** | **Pa weithgareddau yr ymgymerir â nhw?** | | **Pa wybodaeth sydd ei hangen i ddeall effaith ein gweithgareddau?** | **Pa wahaniaeth sy'n cael ei wneud?** | **Sut gallwn benderfynu ar lwyddiant ein gwaith?** |
| **Dealltwriaeth Swyddogion Cofrestru Etholiadol a chyflawni'r rôl a'r cyfrifoldebau – rheoli a goruchwylio'r gwaith o ddarparu'r cofrestrau etholiadol, gan gynnwys swyddogaethau statudol Swyddog Cofrestru Etholiadol, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid**<br><br>**Cynllunio - cynnal cynllun drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys manylion cyhoeddi a chyflenwi'r gofrestr a threfniadau ar gyfer rheoli systemau'n ddiogel, a chofrestr risgiau a phroblemau, gan nodi unrhyw risgiau i'r broses o gyflawni eich cynllun cofrestru a chamau lliniaru cyfatebol yn effeithiol**<br><br>**Adnoddau – nodi a dyrannu cyllideb a staff ar gyfer gweithgareddau cofrestru etholiadol**<br><br>**Hyfforddiant – nodi a darparu hyfforddiant i ddiwallu anghenion staff dros dro a staff parhaol** | Cyhoeddi a chyflenwi'r gofrestr etholiadol | Cynnal cofnod o'r rhai sy'n gymwys i gael y rhestr etholiadol<br><br>Cyflenwi'r gofrestr etholiadol yn ddiogel i dderbynwyr<br><br>Cyflenwi cofrestrau etholiadol mewn modd amserol a chywir i'r Swyddog Canlyniadau i gefnogi'r broses o gynnal etholiadau | • Gwerthuso trefniadau i gyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig a diweddaru'r gofrestr bob mis<br>• Gwerthuso trefniadau i gyflenwi'r gofrestr i'r rhai sy'n gymwys i'w chael<br>• Nifer y ceisiadau a gafwyd, nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a phryd y cawsant eu cyflenwi<br><br>• Llwybrau archwilio sy'n dangos sut a phryd y cafodd data eu trosglwyddo<br>• Gwerthuso dulliau o drosglwyddo data<br>• Prosesau i sicrhau seiberddiogelwch<br>• Amseru'r broses o ddarparu'r cofrestrau<br>• Darparu gwybodaeth i'r sawl sy'n derbyn y gofrestr am sut i'w defnyddio'n briodol | Mae pawb sy'n gymwys i gael y gofrestr yn cael y data yn brydlon ac mewn fformat priodol<br><br>Mae gan etholwyr hyder yn y ffordd y mae eu data yn cael eu llunio, eu cyrchu a'u defnyddio<br><br>Caiff data personol eu prosesu'n gyfreithlon ac yn dryloyw | • Nodi perfformiad yn erbyn y DPAau/amcanion yn eich cynlluniau<br><br>• Dadansoddi cwynion a gafwyd mewn perthynas â darparu'r cofrestrau<br><br>• Dadansoddi cwynion gan etholwyr am y ffordd y caiff eu data eu prosesu |